

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun **11 Rhagfyr 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-12/17: Presennol**

Cadeirydd ; Cyng Sian Williams;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Henry Jones; Cyng Elizabeth George; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts; Cyng Eirwyn Williams;.

Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-12/17 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Phil Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Elizabeth Reagan

### **3-12/17: Datgan diddordeb**

Cyng Wayne Roberts - eitem 7-12/17 a. Cais cynllunio C17/1134.35/AM

### **4-12/17 Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd**

Angen cadarnhau a llofnodi y cofnodion yn unol â'r gyfraith

### **5-12/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)**

- a. Roedd ymateb gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i achos (RFA0706008) a gyfeiriwyd atynt wedi ei gylchredeg i aelodau. Nodwyd ei bod yn debyg bod y Cyngor wedi torri'r Seithfed Egwyddor Diogelu Data yn yr achos oherwydd bod y data personol yng nghofnodion y cyfarfod (dros flwyddyn yn ôl) heb gael eu golygu cyn i'r rheiny gael eu cyhoeddi ar y wefan. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiynydd am gymryd rhagor o gamau ar hyn o bryd gan nad oedd yn credu bod yr achos yn bodloni'r meini prawf a geir yn ei Polisi Camau Rheoleiddiol ar Ddiogelu Data oherwydd bod y data personol a ddatgelwyd yn gyfyngedig, a bod y data personol wedi'i dynnu bellach o'r cofnodion, ac nad oedd yn ymddangos bod unrhyw niwed wedi'i beri i'r unigolyn .Roedd y Comisiynydd yn awgrymu y dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo weithdrefnau priodol i atal y materion a godwyd yn yr achos hwn rhag digwydd eto. Byddai cofnod yn cael ei gadw o'r achos hwn ar ffeil.
- b. Roedd llythyr gan Gwasanaethau Ambiwylans Cymru – ebost 7 Rhagfyr – wedi ei gylchredeg ac yn rhy hwyr i'w drafod yn y cyfarfod.

### **6-12/17: Gohebiaeth**

- a. Llywodraeth Cymru – Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwariant Arian 137: y Terfyn ar gyfer 2018-19 ebost 30 Tachwedd 2017

Nodwyd cynnwys y llythyr a oedd yn hysbysebu Cyngorau Cymuned a Thref mai y swm o £7.86 am bob etholwr y gellir ei wario yn 2018-19 at weithgaredd nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei gylch (ond sydd o fudd uniongyrchol i'r ardal) ac at wario at ddibenion elusennol ac eraill.

**Penderfyniad** Cyfeirio i'r Pwyllgor Cyllid

- b. Un Llais Cymru – Ymgynghoriad ar adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref  
Roedd y Clerc wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Un Llais Cymru yng Nghaernarfon ar 28 Tachwedd er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Un Llais Cymru yn paratoi adroddiad yn dilyn eu cyfarfodyd ymgynghori ar draws Cymru erbyn Mis Ionawr. Cynnig bod y Cyngor yn aros i dderbyn yr adroddiad yma cyn trafod y mater ymhellach.  
**Penderfyniad:** bod y Cyngor yn aros i dderbyn yr adroddiad yma cyn penderfynnu ar ymateb.
- c. Comisiwn y Gyfraith – Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Papur Ymgynghori – ebost 30 Tachwedd 2017. Gwahoddiad i'r Cyngor ddanfôn sylwadau erbyn 1 Mawrth 2018.  
**Penderfyniad:** Ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2018.
- d. Llythyr diweddar gan Heddlu Gogledd Cymru -ebost 23 Tachwedd 2017  
Derbyniwyd llythyr yn nodi'r heriau sy'n cael eu hwynebu gan Wasanaeth yr Heddlu a Heddlu Gogledd Cymru  
**Penderfyniad:** Derbyd y wybodaeth
- e. Un Llais Cymru - Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor 13 Rhagfyr 2017  
Nodwyd bod Comisynydd yr Heddlu am rhoi cyflwyniad , Roedd y Cadeirydd am fynychu'r cyfarfod.
- f. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader Ymgynghoriad ar 'Ein Sratogaeth ar Gyfer y Dyfodol' – ebost 29 Tachwedd 2017 (wedi ei gylchredeg) Roedd yn rhydd i unigolion ddanfôn sylwadau erbyn 15 Rhagfyr.
- g. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd Ddeiliaid Betsi Cadwalader 27 Tachwedd 2017 – ebost 1 Rhagfyr nodi droddiad diweddaraf gan gynrychiolydd Unllai Cymru ar y Grwp. A oes sylwadau?  
**Penderfyniad:** Derbyd y wybodaeth
- h. Tystysgrif Cymeryd ran yn Diwrnod y Llynges - ebost 21 Tachwedd 2017– Nodwyd bod tystysgrif wedi ei dderbyn i'r Cyngor Tref fedru ei arddangos mewn lle cyhoeddus.  
**Penderfyniad:** Arddangos yn hysbysfwrdd y Cyngor.( Cyng R Cadwalader)
- i. Criccieth yn ei Blodau – ebost 14 Tachwedd 2017  
Cais gan Criccieth yn ei Blodau i'r Cyngor Tref atgyweirio a phaentio daliwrs planhigion ger y Pines – nodwyd bod Criccieth yn ei Blodau wedi paentio dros 60 o ddaliwrs eleni a diolchwyd iddynt am y gwaith yma.

**Penderfyniad:** Gan mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd oedd y daliwrs ger y Pines i ysgrifennu i'r adran bwrdeistrefol i dynnu sylw at y broblem a gofyn iddynt eu atgyweirio a chadarnhau hyn gyda Criccieth yn ei Blodau.

- j. Gohebiaeth a chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth  
Nodwyd bod cais am wybodaeth pellach a chwestiynnau i'r Cyngor wedi ei dderbyn.

**Penderfyniad:** – cytunwyd i drafod mewn cyfarfod caëedig.

#### **7-12/17: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C17/1134/35/AM Cais amlinellol ar gyfer codi tŷ deulawr – Helidon, Lon Merllyn, Criccieth, LL52 0HY

**Penderfyniad:** .Dim gwrthwynebiad

Ers cyhoeddi'r agenda roedd dau gais ychwanegol wedi dod gerbron a oedd angen sylw cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor:

- b. C17/1137/35/CR Addasiadau mewnol ac allanol i drosi llawr gwaelod yn dy annedd – Ystafell Arwerthiant Ty Capel, 21B, High Street, Criccieth, LL52 0BS

**Penderfyniad:** Danfon sylwadau: gofyn am fwy o wybodaeth am fanylion yr addasiadau allanol.

- c. C17/1138/35/LL Newid defnydd ac addasiadau i llawr gwaelod yr adeilad i dy annedd - Ystafell Arwerthiant Ty Capel, 21B, High Street, Criccieth, LL52 0BS

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

#### **8-12/17 Apwyntio Archwilydd Mewnol ar gyfer 2017/18**

Danfonwyd am dri amcan bris ac roedd un wedi ei dderbyn gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd.

**Penderfyniad:** Apwyntio Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn archwilwyr mewnol ar gyfer 2017/18.

#### **9-12/17 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan Cyng Elizabeth George yn dilyn cyfarfod cyntaf Grŵp Llywio'r Prosiect ar 7 Rhagfyr 2017. Roedd cylch gorchwyl y **Grŵp** wedi ei gylchredeg.

**Penderfyniad:** derbyn yr adroddiad a chymeradwyo y Cylch Gorchwyl.

#### **10-12/17 Cynllun Cymunedol Criccieth :**

Nodwyd bod y gwaith o lunio adroddiad wedi ei gomisynu. Roedd gohebiaeth wedi ei dderbyn yn esbonio bod amserlen ar gyfer paratoi'r adroddiad wedi ymestyn o wythnos i 22 Rhagfyr 2017 oherwydd effaith y tywydd annisgwyl ar gynlluniau.

**Penderfyniad:** cylchredeg yr adroddiad i aelodau'r Cyngor ar gyfer cyfarfod Mis Ionawr 2018.

#### **11-12/17 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.**

Nodwyd bod y Cyng Elizabeth George wedi gofyn am gyfarfod gyda'r cyfreithiwr.

#### **12-12/17 Torri gwair yn y dref**

Roedd y Cyngor wedi bod yn aros am rhagor o ffigurau yn dilyn y cyfarfod diwethaf a'r Clerc wedi sgwennu i atgoffa y Swyddog. Derbyniwyd ffigurau yn gynt y diwrnod hwnnw a oedd yn wahanol i'r

ffigurau gwreiddiol. Nid oedd amser wedi bod i gylchredeg y ffigurau mewn da bryd ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor yn y cyfarfod yma.

**Penderfyniad:** Gwahodd y Swyddog i gyfarfod nesaf y Cyngor ym Mis Ionawr.

#### **13-12/17 Goleuadau Nadolig**

Nodwyd bod y goleuadau wedi eu troi ymlaen ers 23 Tachwedd.

#### **14-12/17: Parcio yng Nghriccieth**

Dim i'w adrodd.

#### **15-12/17 Torri Coed yng Nghriccieth**

Y Cyng Sian Williams i drefnu cyfarfod gydag Arweinydd y Tîm Bioamrywiaeth

#### **16-12/17 Meinciau Tref Criccieth**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi sgwennu at Cyngor Gwynedd re cyngor am adnewyddu meinciau yr Esplanade – ac yn aros am ymateb.

Aros am adroddiad am y gwaith gytunwyd ar y gweddi.

#### **17-12/17 Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd.

#### **18-12/17 Aelodaeth SLCC – Cymdeithas y Clercod**

Gofynnwyd am ganiatad i'r Clerc ymaelodu gyda'r Gymdeithas ar gôst i'r Cyngor.

Penderfyniad: cytunol y dylid y Clerc ymaelodu gyda'r SLCC

#### **19-12/17: Derbyniadau**

#### **20-12/17: Taliadau**

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£126.60	Siec 101205
• Cyflog y Clerc	£506.69	Siec 101206
• Siop Copi Cyf	£107.08	Siec 101207
• R.J.Electrics	£9,702.00	Siec 101208
• Costau Teithio Clerc Cyfarfod Caernarfon 28/11/2017	£16.20	Siec 101209

Rhoddyd caniatad i'r clerch i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 8 Ionawr 2018**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 30 Rhagfyr 2017\*\***